Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 2621

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ond nid ydynt yn gymwys o ran adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Tachwedd 2013.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "adeilad ynni a eithrir" *("excepted energy building")* yr un ystyr ag yn Erthygl 1(3) a'r Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**1**).

Diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010

2. Yn Rheoliadau Adeiladu 2010(**2**) ar gyfer Atodlen 3 (Cynlluniau Hunanardystio ac Esemptiadau o'r Gofyniad i Roi Hysbysiad Adeiladu neu Adneuo Planiau Llawn)(**3**) amnewidier Atodlen 3 fel y nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Carl Sargeant
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

14 Hydref 2013

(**1**) O.S. 2009/3019.
(**2**) O.S. 2010/2214, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) Diwygiwyd Atodlen 3 gan O.S. 2011/1515, O.S. 2012/718, O.S. 2012/3119, O.S. 2013/747 (Cy. 89), 2013/1105 ac O.S. 2013/1959.